

## Clybiau Brecwast ac Ar ôl ysgol / Breakfast and After school Club

### DECHRAU/STARTING –

Dydd Llun, Medi 14eg / Monday, September 14<sup>th</sup>



1. Bydd yr holl glybiau yn cael eu cynnal yn y Neuadd tan o leiaf hanner tymor. A  
*All clubs will be held in the school hall until half term at the moment.*
2. Bydd y staff yn gyfarwydd i'r disgyblion.  
*The staff will be familiar to the pupils.*
3. Mae'n **HANFODOL** eich bod yn archebu lle i'r clybiau hyn.  
*It is **ESSENTIAL** that you book a place for your child for these Clubs.*
4. Yn wahanol i llynedd, mae'n **RHAID** archebu lle ar gyfer Clwb Brecwast am Ddim. Byddwn yn monitro hyn yn wythnosol a gofynnwn i chi ei ddefnyddio dim ond pan mae wir angen, gan ei fod yn llawn bron bob dydd. Os byddwn yn gweld fod rhai yn archebu lle a ddim yn ei ddefnyddio ar y diwrnodau penodedig, bydd gennym yr hawl i wrthod eich plentyn. Os ydych angen canslo archeb y Clwb Brecwast am Ddim, cofiwch gysylltu gyda'r Swyddfa.  
*You **MUST** book a place for your child for free Breakfast Club, which is a different system from last year. We will be monitoring this on a weekly basis and kindly ask that you use this facility only if you need to as it is full on most days. If we see that some are booking places and not using them, we will be looking at refusing your child. If you need to cancel a free breakfast booking, please contact the office.*
5. Bydd gofyn i'ch plentyn olchi/di-heintio ei d/ddwylo wrth gyrraedd a gadael y clwb.  
*We will be asking your child to wash/sanitise his/her hands when arriving/leaving club.*
6. Fe fydd y disgyblion yn cael eu gwahanu fesul swigen/adran yn y Clwb.  
*The pupils will be separated into their bubbles/departments within Club.*
7. Gweler y daflen costau Clwb - *Please see prices for Club.*
8. Unrhyw ymholiad/gwestiwn, cofiwch gysylltu gyda'r ysgol.  
*Any enquiries/questions, please contact the school.*

### Clwb Brecwast (talw) / Breakfast Club (paying)

- **7.30 - 8.30**
- **RHAID** archebu lle - ***MUST*** book a place.
- Dod i'r Brif Fynedfa, yna canu'r gloch.  
*Come to Main Entrance and ring the bell.*
- Bydd aelod o staff yn dod yna i gyfarfod eich plentyn ac yn arwyddo eich plentyn mewn.  
*A member of staff will come to meet you and will sign your child in.*
- Bydd y plant yn cael brecwast o 8 o'r gloch ymlaen.  
*Breakfast will be served from 8 o' clock onwards.*

### Clwb Brecwast am ddim / Free Breakfast Club

- **8.30 – 8.50/9.00**
- RHAID i'r disgyblion gyrraedd rhwng 8.30 a 8.45 er mwyn cael mynediad i'r Clwb Brecwast am Ddim. Mae hyn er mwyn gofalu fod pob mynedfa yn glir erbyn 8.50.  
*Pupils MUST arrive between 8.30 and 8.45 to gain access to the Free Breakfast Club. This is so that all entrances are clear by 8.50.*
- **RHAID** archebu lle - ***MUST*** book a place.
- Pawb i'r Brif Fynedfa ac fe fydd aelod o staff yn arwyddo eich plentyn mewn.  
*Everyone to Main Entrance and a member of staff will sign your child in.*
- Brecwast yn cael ei weini rhwng 8.30 a 8.50.  
Breakfast will be served between 8.30 and 8.50.

### Clwb ar ôl Ysgol / After School Club

- **3.00/3.05 – 5.45**
- Pawb i gasglu eu plentyn o'r Brif Fynedfa ac fe fydd aelod o staff yn arwyddo eich plentyn allan.  
*Everyone to main entrance to collect your child and a member of staff will sign your child out.*
- Nid ydym yn caniatáu yr un car i ddod i faes parcio yr ysgol cyn **4.30** i gasglu eich plentyn o'r Clwb.  
*No cars are allowed onto the school car park **before 4.30** to pick up your child from club.*